Lucy yn cario'r Ffagl Olympaidd trwy Gonwy. Mai 28ain 2012.

Er cof am
Lucy Beesley
1991 - 2017

Hysbyswyd yr ysgol o'r newyddion trist iawn am farwolaeth Lucy Beesley. Mynychodd Lucy Ysgol David Hughes o 2004 tan 2010. Roedd yn disgleirio ym maes athletau, ac yn 15 oed fe gynrychiolodd Ynys Môn yng Ngemau'r Ynysoedd yn Rhodes yn 2007 ble yr enillodd y fedal arian yn y 100m mewn amser o 12.29 eiliad yn unig. Cafodd ddiagnosis o diwmor anoperadwy ar yr ymennydd yn Rhagfyr 2010, ac i ddechrau ymatebodd yn dda i driniaeth a chafodd wellhad dros dro am 5 mlynedd. Er gwaetha'r anawsterau oedd yn gysylltiedig â'i thriniaeth, a chyda'i phenderfyniad nodweddiadol, bu Lucy yn byw bywyd llawn a bywiog gan raddio o Brifysgol Bangor efo BA 2.1 ag Anrhydedd mewn Astudiaethau Plentyndod, ac unwaith eto cynrychiolodd Ynys Môn yng Nghemau'r Ynysoedd yn Bermuda yn 2013 ac wedyn yn Jersey yn 2015. Yn drasig ailymddangosodd ei thiwmor yn Hydref 2015 ac er gwaethaf parhau â'r driniaeth ni ellid atal hynt ei hafiechyd. Bu farw yn ei chartref ddydd Sul diwethaf, 19eg o Fawrth, yng ngofal cariadus ei theulu. Bydd colled mawr ar ôl Lucy i'w theulu a'i nifer fawr o ffrindiau.